Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru

llywydd@senedd.cymru

24 Ebrill 2023

Annwyl Elin

Yn ddiweddar, mae rhai Aelodau o'r Senedd wedi mynegi diddordeb yn y broses deirochrog sy'n llywio penderfyniadau uwchgyfeirio gan Weinidogion mewn perthynas â byrddau iechyd yng Nghymru. Roeddwn yn meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol egluro sut y mae'r system yn gweithio a byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu tynnu sylw'r Aelodau at hyn.

Mae staff o Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru yn cyfarfod bob chwe mis i rannu canfyddiadau perthnasol a gwybodaeth sy'n deillio o'u gwaith i gefnogi trafodaeth ynghylch sefydliadau'r GIG. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio gan gyrff adolygu allanol i lywio eu rhaglenni gwaith wedi'u trefnu penodol eu hunain. Gall y cyrff hynny benderfynu bwrw ati yn gynharach nag a fwriadwyd â darn o waith wedi'i drefnu a/neu addasu cwmpas darn o waith penodol er mwyn ymchwilio'n fanylach i fater penodol.

O bryd i'w gilydd, mae'r dull hwn yn dod o hyd i faterion sy'n rhagori ar yr hyn y gellir mynd i'r afael ag ef drwy drefniadau arferol. Gall pryderon godi yn sgil un digwyddiad penodol neu gyfuniad o ffactorau. Pan fydd pryderon o'r fath yn codi, gall Llywodraeth Cymru a chyrff adolygu allanol gynnull ynghyd gyfarfod neu gyfarfodydd eithriadol i asesu'r wybodaeth sydd ar gael ac i geisio pennu a oes angen cymryd camau.

Wrth ystyried diwygio unrhyw lefelau ymyrraeth, mae tri cham neilltuedig a ddilynir. Mae'r cyfarfod teirochrog hwn yn cynrychioli'r cam cyntaf yn y broses honno.

Yn ystod yr ail gam, sy'n cael ei lywio gan drafodaeth y grŵp teirochrog, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eu hystyried.

Mae'r trydydd cam yn nwylo'r Gweinidog a'r Gweinidog sy'n gwneud y penderfyniadau terfynol mewn perthynas â mesurau ymyrraeth.

Bwriad y fframwaith uwchgyfeirio yw caniatáu i sefydliadau symud i fyny ac i lawr y fframwaith yn unol â'u hamgylchiadau ac unrhyw dystiolaeth o bryderon neu gynnydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r strwythur a’r broses isgyfeirio ar gyfer sefydliadau yn dilyn yr un camau ag y nodwyd uchod felly.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, gallaf gadarnhau bod Gweinidogion olynol wedi dilyn y dull hwn ym mhob achos o uwchgyfeirio neu isgyfeirio mesurau ymyrraeth yn GIG Cymru.

Yn gywir



MARK DRAKEFORD